

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

SWYDD DDISGRIFIAD - Hyfforddwr Cymorth Hyfforddiant

Adran	Hyfforddi a Datblygu
Swydd	Hyfforddwr Cymorth Hyfforddiant
Rhif Swydd	I'w gadarnhau
Gradd	7
Lleoliad	Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd a Chyfleusterau Hyfforddi mewn Lleoliadau Eraill o fewn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Yn gyfrifol i	Reolwr Gorsaf – yn gyfrifol am gwrs penodedig
Yn gyfrifol am	Adnoddau Corfforol, Porth Caerdydd ac Offer Hyfforddi mewn Lleoliadau Eraill

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth.

PRIF BWRPAS Y SWYDD

I ddatblygu a darparu hyfforddiant i Ymladdwyr Tân gweithredol ac asiantaethau/grwpiau eraill.

I gynnal a chadw offer hyfforddi yng nghyfleusterau Porth Caerdydd a chyfleusterau Hyfforddi mewn Lleoliadau Eraill ar draws ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Darparu hyfforddiant i bersonél gweithredol ac asiantaethau/grwpiau eraill mewn modd priodol, diogel ac effeithiol.
2. I ddarparu adnoddau digonol ar gyfer y digwyddiadau hyfforddi gan gynnwys paratoi a chefnogi cyrsiau, yn ogystal â chynnal a chadw a glanhau yn barod ar gyfer cyrsiau/sesiynau olynol.
3. I sicrhau bod yr holl ofynion perthnasol a chymwys o ran profi/gwasanaethu yn cael eu cynnal yn unol â pholisi'r Gwasanaeth
4. I ddarparu cefnogaeth i orsafoedd Dyletswydd Rhan Amser drwy gynnal ymweliadau hyfforddi i orsafoedd yn unol â gofynion y Gwasanaeth.

5. I gynnal asesiadau risg ar gyfer lleoliadau hyfforddi, ymchwiliadau i ddamweiniau (lle bo'n briodol) a gweithgareddau cysylltiedig i sicrhau iechyd, diogelwch a lles personél

GOFYNION SAFONOL GWASANAETH

- I fynychu cysrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r raddfa a'r swydd.
- I gydweithio'n llwyr ag unrhyw gynllun neu brosiect a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y gwasanaeth a Chynlluniau Iaith Gymraeg wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch /Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol ac i gymryd gofal rhesymol o ran iechyd a diogelwch eich hunan ac eraill y gellir eu heffeithio'n andwyol o ganlyniad i'ch gweithredoedd/anweithredoedd

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ar bob adeg, megis bod:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

Mae'r rôl hon yn gofyn teithio'n gyson rhwng safleoedd ar draws ardal De Cymru. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.

